# Newid i'ch casgliadau gwastraff na ellir ei ailgylchu

**O 28 Ebrill 2025**




Sir y Fflint yn ailgylchu
Flintshire recycles

BWRW ATI I DDIDOLI!
LET'S GET IT SORTED!

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Argraffwyd ar bapur 100% eilgylch   For office use only: 01/2025

# Beth sy'n newid?

- O'r wythnos sy'n dechrau **ddydd Llun 28 Ebrill 2025**, byddwn yn **casglu eich gwastraff na ellir ei ailgylchu** o'ch cartref **bob tair wythnos**, yn hytrach na phob pythefnos.
- **Efallai bydd eich diwrnod casglu'n newid.** I wirio eich dyddiadau casglu, edrychwch ar y calendr y byddwn yn ei anfon atoch, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.
- **Daliwch ati i ddefnyddio eich bin du presennol** ar gyfer eich gwastraff na ellir ei ailgylchu, os gwelwch yn dda.
- **Peidiwch â rhoi gwastraff ychwanegol allan wrth ymyl, neu ar ben eich bin gan atal y caead rhag cau.** Yr enw ar hyn yw 'gwastraff gormodol' ac ni fyddwn yn ei gasglu.
- Os ydych chi'n creu mwy o wastraff na ellir ei ailgylchu nag y gallwch ei ffitio yn eich bin i ni ei gasglu bob tair wythnos, daliwch eich gafael arno a'i roi allan ar eich diwrnod casglu nesaf, neu ewch ag ef i'ch Canolfan Ailgylchu Cartref leol am ddim.

# Pam ydym ni'n gwneud y newid hwn?

1. Er bod y rhan fwyaf o bobl yn Sir y Fflint yn ailgylchu, **gellid bod wedi ailgylchu bron i 58% o'r gwastraff a gaiff ei roi mewn biniau gwastraff na ellir ei ailgylchu o gartref neu o'r Ganolfan Ailgylchu Cartref leol**. Os byddwch yn sortio eich gwastraff ac yn ailgylchu cymaint ag y gallwch gan ddefnyddio'r casgliadau ailgylchu ar wahân rydym yn eu darparu bob wythnos, bydd gennych lai o sbwriel dros ben i'w roi yn eich bin du.
2. **Ar hyn o bryd rydym yn ailgylchu 63% o'n gwastraff, ond mae angen i ni ailgylchu 70% erbyn 2025** i fwrw targed ailgylchu Llywodraeth Cymru, neu efallai y bydd yn rhaid i ni dalu dirwy fawr.
3. **Mae mwy nag 1 miliwn o gartrefi yn y Deyrnas Unedig eisoes yn cael casgliadau gwastraff na ellir ei ailgylchu'n llai aml ac mae wedi arwain at welliannau yng nghyfraddau ailgylchu'r ardaloedd hynny.**
4. Trwy leihau pa mor aml rydym yn casglu eich gwastraff na ellir ei ailgylchu, **byddwn hefyd yn lleihau'r pellter rydyn ni'n ei deithio, sy'n lleihau faint o lygredd sy'n cael ei allyrru gan gerbydau ac mae'n lleihau ein hallyriadau carbon, sy'n helpu i atal newid hinsawdd**.

# Beth ddylech ei roi yn eich bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu?







## ✔ Ie, plîs

Y rhan fwyaf o eitemau **na ellir** eu hailgylchu o gartref gan ddefnyddio'r cynwysyddion a roddwyd ichi gan y Cyngor, neu'r rhai **na ellir** eu hailgylchu yn eich Canolfan Ailgylchu Cartref leol, fel:

- ✔ Polystyren
- ✔ Pecynnau creision*
- ✔ Baw anifeiliaid, yn cynnwys gwasarn cathod
- ✔ Cwpanau untro, fel y rhai a ddefnyddir ar gyfer te a choffi
- ✔ Bagiau a deunydd lapio plastig*
- ✔ Yr holl wastraff o'r cartref sydd dros ben na ellir ei ailgylchu

* Caiff rhai o'r eitemau hyn eu derbyn mewn mannau ailgylchu oddi cartref mewn lleoliadau fel archfarchnadoedd. Ewch i **cymruynailgylchu.org.uk** i ddod o hyd i'ch cyfleuster agosaf.

## ✘ Dim diolch

Unrhyw eitemau **y gellir** eu hailgylchu o gartref gan ddefnyddio'r cynwysyddion a roddwyd ichi gan y Cyngor, neu'r rhai **y gellir** eu hailgylchu yn eich Canolfan Ailgylchu Cartref leol, fel:

- ✘ Gwastraff bwyd
- ✘ Poteli a jariau gwydr
- ✘ Caniau, tuniau, erosolau a ffoil metel
- ✘ Poteli, potiau a thybiau plastig
- ✘ Cartonau bwyd a diod, fel Tetra Pak
- ✘ Cardfwrdd a phapur
- ✘ Batris o'r cartref
- ✘ Clytiau a chynnyrch hylendid amsugnol (os ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn)
- ✘ Gwastraff clinigol (os ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn)
- ✘ Gwastraff gardd (os ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn)
- ✘ Eitemau trydanol (dylech fynd â'r rhain i'ch Canolfan Ailgylchu Cartref leol)

# Cwestiynau cyffredin

## Angen cynwysyddion ailgylchu ychwanegol?

Os ydych chi'n creu mwy o ailgylchu nag y gallwch ei ffitio yn eich cynwysyddion ailgylchu presennol, neu os yw'ch cynwysyddion wedi torri neu fynd ar goll, cewch gasglu cynwysyddion ychwanegol neu rai yn eu lle o'ch Canolfan Ailgylchu Cartref neu Ganolfan Gyswllt leol.

Ewch i **siryfflint.gov.uk/CaisEitemauAilgylchu**




## Teulu mawr?

Y maint safonol ar gyfer biniau i gartref o bump o bobl neu lai yw bin 180 litr.

Os oes chwech neu fwy o bobl yn byw yn eich cartref – a'ch bod yn teimlo eich bod yn ailgylchu popeth y gallwch ond bod angen mwy o le o hyd arnoch ar gyfer eich gwastraff na ellir ei ailgylchu – cewch wneud cais am fin mwy 240 litr.

Ewch i **siryfflint.gov.uk/GwneudCaisAmFinMwy** neu ffoniwch ein tîm Gwasanaethau Stryd ar **01352 701234**.





## Angen help?

I ddarganfod pa wastraff o'r cartref y gallwch, ac na allwch, ei ailgylchu o gartref, ewch i **siryfflint.gov.uk/BethAllaiAilgylchu**

Os oes angen help arnoch i sortio eich gwastraff ac ailgylchu'n gywir, ebostiwch ni ar **GwasanaethauStryd@siryfflint.gov.uk** neu ffoniwch ein tîm Gwasanaethau Stryd ar **01352 701234** am gyngor ac arweiniad.



Mae eich **ailgylchu'n gwneud gwahaniaeth MAWR** yn **Sir y Fflint**.
Diolch ichi am barhau i wneud y peth iawn ac am chwarae eich rhan dros yr amgylchedd, drwy sortio eich gwastraff ac ailgylchu cymaint ag y gallwch.

**www.siryfflint.gov.uk/NewidiadauirCasgliadau**
**GwasanaethauStryd@siryfflint.gov.uk**
**01352 701234**
**CSyFflint**
**csyfflint**